| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Medi 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Ivan Butler, Pennaeth Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Trefn Lywodraethol Sefydliadau Hyd Braich** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am waith rhagarweiniol y Pennaeth Archwilio Mewnol ac am yr adroddiad a luniwyd ganddo ynglŷn â fframwaith asesu i roi sicrwydd i’r Cyngor ynglŷn â threfn lywodraethol a pherfformiad sefydliadau ‘hyd braich'.

## 2. Beth yw’r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

I gychwyn, gofynnodd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad am adroddiad ynglŷn â sut y gellid cael sicrwydd ynglŷn â pherfformiad 'sefydliadau hyd braich', a chytunodd y Pennaeth Archwilio Mewnol i ddatblygu hynny yn rhan o’r prosiect yn ymwneud â Thystysgrif Llywodraethu Corfforaethol, Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Cytunwyd yn ddiweddarach y dylid cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gan ei fod yn cwmpasu cylch gwaith ehangach na pherfformiad yn unig.

## 3. Beth yw’r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ynglŷn ag adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 a dyma gam cyntaf prosiect i ddatblygu fframwaith cadarn i fonitro trefn lywodraethol 'sefydliadau hyd braich' neu, fel y mae’r adroddiad yn cyfeirio atynt, ‘Darparwyr Gwasanaethau a Ariennir gan y Cyngor’. Mae'r adroddiad yn darparu enghreifftiau o arfer da ac arweiniad o’r Alban ac yn awgrymu ffordd ymlaen i’r Cyngor ddatblygu fframwaith syml ond effeithiol, na fydd, gobeithio, yn rhy fiwrocrataidd.

Ar hyn o bryd, mae'r argymhellion yn rhai cyffredinol, ond y cam nesaf fydd datblygu fframwaith penodol ar gyfer y Cyngor i'w weithredu erbyn 1 Ebrill 2015, gan fynd ati i ymgynghori â gwasanaethau, Darparwyr Gwasanaethau a Ariennir gan y Cyngor ac aelodau etholedig. Gellid datblygu’r fframwaith hefyd i'w ddefnyddio mewn partneriaethau ac yn rhan o drefniadau contractau mawr gyda sefydliadau trydydd

parti, pan fo’r Cyngor yn dibynnu'n helaeth ar sefydliadau trydydd parti i gyflenwi gwasanaethau allweddol.

Bydd y fframwaith newydd gogyfer â monitro Darparwyr Gwasanaethau a Ariennir gan y Cyngor yn cyfrannu'n sylweddol at drefn lywodraethol y Cyngor ei hun ac yn mynd i'r afael â gwendid llywodraethol sylweddol a amlygwyd yn y 'datganiad llywodraethu blynyddol' gan roi sicrwydd i’n budd-ddeiliaid y cedwir cyfrif llawn o arian cyhoeddus ac y caiff ei ddefnyddio at y diben y’i bwriadwyd wrth gyflawni blaenoriaethau corfforaethol a dyletswyddau statudol Cyngor Sir Ddinbych.

Daw adroddiadau pellach ger bron y Pwyllgor hwn wrth i gam dau fynd rhagddo.

**Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â’r adroddiad hwn.

**5. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes costau yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**6. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd o effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i’r adroddiad hwn.**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig gogyfer â newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

**7. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Bu i’r Tîm Gweithredol Corfforaethol drafod yr adroddiad ar 28 Gorffennaf 2014, gan gytuno i symud ymlaen i gam dau.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn

**9. Beth yw’r risgiau ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn